

Cyngor Cymuned Llanelian (245)

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Gorffennaf 9, 2013 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 6.30yh.

Presennol:	Hefina Williams	Glenys Jones	T Elfyn Hughes
	Gordon Hayes	Thomas D Jones	Helen Hughes
	Dafydd Griffiths	David Herbert	Cyng. Aled Morris Jones

Ymddiheuriadau: Helen Woodcock

Yn absenoldeb Helen Woodcock, cadeiryddwyd gan Hefina Williams nes etholiad yr Is-gadeirydd.

1 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd Cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig T Elfyn Hughes, Eilio Helen Hughes.

2 Materion yn Codi

2.1 Ethol Is-gadeirydd – etholwyd Dafydd Griffiths yn Is-gadeirydd. Pawb yn cytuno.

2.2 Archwiliad Cae Chwarae – Mae'r Clerc wedi derbyn adroddiad gan M Owen yn amlinellu gwaith sydd angen ei gwblhau (fel nodwyd yng nghyfarfod yr is-bwyllgor). Nid yw M Owen ar gael i wneud y gwaith ond yn barod ail-archwilio ar ol ir gwaith gael ei gwblhau.

Mae ebost wedi cyrraedd gan Tony Chilton yn gofyn am gadarnhad cyn cwblhau yr archwiliad blynyddol ar y Cae, mae'n debyg ei fod wedi eu gwneud ers rhai blynyddoedd. Y Clerc i drafod a Gwyn Roberts i weld beth fydd fel arfer yn digwydd, dealltwriaeth rheini oedd yn bresennol oedd mai M Owen fydd yn archwilio ac yn adrodd yn ol.

CET

2.3 Llechi'r Fynwent – ymateb wedi dod i law gan Un Llais Cymru yn nodi na all y Cyngor werthu y llechi na gwneud dim a nhw ond thrwsio beddi o fewn y fynwent. Cytuno i drafod y mater eto yn y dyfodol.

2.4 Cylchfan – cafwyd ymateb gan Aled Morris Jones nad oedd yr adran briffyrdd yn fodlon iawn ar osod carreg ar y gylchfan. Byddent fodd bynnag yn afon warden i lawr i'r traeth yn reolaidd dros yr haf er mwyn cadw llygaid ar broblemau parcio.

2.5 Blwch ffon – dim ymateb hyd yma gan John Owen yn y Cyngor Sir.

2.6 Cyfethol Aelodau – mae canllawiau wedi dod i law gan y swyddfa etholaeth. Ni fydd angen ail hysbysebu y sedd wag.

2.7 Rhodd Gwyn Roberts – Mae cyfanswm o £350 wedi dod i law. Mae £10 wedi ei wario ar flodau i Mrs Roberts, £10 i'r Ysgol Gynradd, a £330 yn rodd i Mr Roberts.

Bydd Dafydd Griffiths yn croesawu pawb i'r Neuadd, TD Jones yn cyflwyno'r rhodd i Mr Roberts, Hefina Williams yn cyflwyno blodau i Mrs Roberts, ac Elfyn Hughes yn gwneud y diolchiadau.

Mae lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan Hefina Williams, Helen Hughes, Glenys Jones, Helen Woodcock a'r Clerc. Pawb oedd yn bresennol yn Diolch iddynt am eu ymdrech.

2.8 Pen Dref – mae ebost wedi ei dderbyn gan Tony Burgess (CSYM) yn nodi eu bod eisioes wedi derbyn cwynion am yr eiddo yma ac bod ymweliadau iddo wedi eu trefnu ar gyfer y dyfodol agos.

2.9 Cof Golofn – y Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol amdano.

2.10 Mainc Pengorffwysfa – y Cyngor Cymuned sydd yn gyfrifol amdano. Mae'r gwaith i'w adnewyddu wedi ei gwblhau.

3 Cynllunio

- 3.1 Min y Don, Dulas – cais am drac i'r eiddo – dim sylw.
- 3.2 Riverside, Dulas – cais am welliannau ac estyniad – cytuno.

4 Unrhyw Fater Arall

- 4.1 Trefi Taclus – cafwyd ebost gan Lois Roberts yn gofyn am ganiatad i lanhau a phaentio y graffiti sydd ar y safle bws yn Llanelian. Mae'r adnoddau i gyd ganddi, a bydd y Gwasanaeth Prawf yn gwneud y gwaith. Pawb yn cytuno.
- 4.2 Cyfarfod Cynghorau ar y Cyd – Mae cyfarfod wedi ei drefu nos Lun 15/7/2013 yn swyddfeydd y CET
Cyngor Tref, Amlwch ar gyfer Cadeiryddion a Clercod Cynghorau Cymuned Gogledd Mon i drafod datblygiadau Fferm Wynt Rhiannon. Cytuno y byddai Dafydd Griffiths a'r Clerc yn mynychu. Bydd posib trefnu cyfarfod i adrodd yn ol ym mis Awst os bydd angen.
- 4.3 Cafwyd llythyr gan Cyngor Ar Bopeth yn cynnig dod i siarad a'r Cyngor am eu prosiect newydd sydd wedi ei gymeradwyo gan Gronfa'r Loteri.

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 7.0yh.

CET07/2013